Chweched Dosbarth
Ysgol Gyfun Cwm Rhondda

Estyn Report Sixth Form Summary
Ysgol Gyfun Cwm Rhondda

Chweched Dosbarth • Ysgol Gyfun Cwm Rhondda • Sixth Form

Main evaluation of the sixth form

In general, sixth-form pupils make good progress. They show very positive attitudes to their work, whether working under the guidance of a teacher in their lessons or during opportunities to work independently. Most pupils are skilful at recalling previous knowledge and use their skills effectively to develop their knowledge and understanding during their lessons. They contribute maturely to class discussions, by listening to each other, discussing intelligently and weaving quotes skilfully as evidence to support their points.

Ysgol Gyfun Cwm Rhondda is a **caring and welcoming community that places a strong emphasis on supporting pupils' well-being.** A passionate pastoral team works together very effectively and supports this culture through a valuable pastoral system that shares the whole-school vision of 'Aspiration. Learning. Wellness'. **They have particular knowledge of pupils' needs in terms of well-being and they use this knowledge to provide valuable assistance and support to pupils.**

Sixth-form pupils' participation in school life is robust and the school gives them valuable opportunities to develop leadership skills. They organise activities, committees and clubs that strengthen their engagement with the rest of the pupils. They also present 'Period Dignity' sessions for the school's younger pupils and for primary schools. **They are passionate about developing the Welsh language** and provide fun activities for pupils at the lunchtime Welsh language club. They also volunteer at a nearby primary school, providing weekly Welsh language sessions for pupils. Through cooperation with the Urdd, pupils have received training to enable them to lead the activities of the school's LGBTQ+ 'Pawb' club.

Many pupils take part in a wide range of extra-curricular activities that cater for cultural, sporting and academic interests. The provision includes annual musical shows, an eisteddfod, a number of sports clubs, and local and overseas trips.

The school offers **a broad curriculum with an appropriate variety of subjects across the whole age range.** It includes lessons in the six areas of learning and experience in years 7, 8 and 9, and academic and vocational courses in key stage 4 and the sixth form. **Leaders ensure that the curriculum responds to the needs, wishes and aspirations of pupils across the range of ages and abilities.** This is reinforced through **effective, comprehensive advisory processes** which ensure that **pupils of all abilities follow appropriate and suitable courses**.

The school provides sound advice and guidance to pupils regarding choice of GCSE and A level subjects. Pupils are happy with the support and advice provided, which includes one-to-one interviews with leaders, interviews with the careers officer, and discussions at options evenings.

In addition to the above, please view the full report to read about the school's other strengths and the Cameos of innovative practice within the report that Estyn believe are worthy of sharing more widely:

- *provision for developing pupils' digital skills*
- *wellbeing lessons*
- *improving attendance through the '12 days of Christmas' scheme*
- *Cwtsh y Cwm*

The full report can be viewed on our school website.

Chweched Dosbarth
Ysgol Gyfun Cwm Rhondda

Trosolwg 6ed Dosbarth Adroddiad Estyn
Ysgol Gyfun Cwm Rhondda

Chweched Dosbarth • Ysgol Gyfun Cwm Rhondda • Sixth Form

Prif arfarniad y 6ed dosbarth

Yn gyffredinol, mae disgyblion y chweched dosbarth yn gwneud cynnydd da. Maent yn dangos agweddau cadarnhaol iawn at eu gwaith, boed pan maent yn gweithio o dan arweiniad athro yn eu gwersi neu wrth gael cyfleoedd i weithio'n annibynnol. Mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn adalw gwybodaeth flaenorol yn fedrus ac yn defnyddio eu medrau'n effeithiol i ddatblygu eu gwybodaeth a'u dealltwriaeth yn ystod eu gwersi. Maent yn cyfrannu'n aeddfed i drafodaethau dosbarth, gan wrando ar ei gilydd, trafod yn ddeallus a phlethu dyfyniadau'n gelfydd fel tystiolaeth i gefnogi'u pwyntiau.

Mae Ysgol Gyfun Cwm Rhondda yn **gymuned ofalgar a chroesawgar sy'n rhoi pwyslais cryf ar gefnogi lles disgyblion.** Mae tîm bugeiliol angerddol yn cydweithio'n effeithiol iawn ac yn cefnogi'r diwylliant hwn trwy system fugeiliol werthfawr sy'n rhannu'r weledigaeth ysgol gyfan, sef 'Dyheu. Dysg. Daioni'. **Mae ganddynt adnabyddiaeth arbennig o anghenion lles disgyblion ac maent yn defnyddio'r wybodaeth hon i ddarparu cefnogaeth a chynhaliaeth werthfawr iddynt.**

Mae cyfraniad disgyblion y chweched dosbarth i fywyd yr ysgol yn gadarn ac mae'r ysgol yn rhoi cyfleoedd gwerthfawr iddynt ddatblygu medrau arwain. Maent yn cynnal gweithgareddau, pwyllgorau a chlybiau sy'n cryfhau eu hymgysylltiad â gweddill y disgyblion. Maent hefyd yn cyflwyno sesiynau 'Urddas Mislif' i ddisgyblion iau yr ysgol ac i'r ysgolion cynradd. **Maent yn angerddol am ddatblygu'r Gymraeg** ac yn darparu gweithgareddau hwyliog i ddisgyblion yn y clwb Cymraeg yn ystod amser cinio. Maent hefyd yn gwirfoddoli mewn ysgol gynradd gyfagos i ddarparu sesiynau Cymraeg i ddisgyblion yn wythnosol. Trwy gydweithio â'r Urdd, mae'r disgyblion wedi cael hyfforddiant i'w galluogi i arwain gweithgareddau'r clwb 'Pawb', sef clwb LHDTC+ yr ysgol.

Mae llawer o ddisgyblion yn cymryd rhan mewn ystod eang o weithgareddau allgyrsiol sy'n darparu ar gyfer diddordebau diwylliannol, chwaraeon ac academaidd. Mae'r ddarpariaeth yn cynnwys sioeau cerdd blynyddol, eisteddfod, nifer o glybiau chwaraeon a theithiau lleol a thramor.

Cynigia'r ysgol **gwricwlwm eang gyda chroestoriad priodol o bynciau ar draws yr holl ystod oedran.** Mae hyn yn cynnwys gwersi yn y chwe maes dysgu a phrofiad ym mlynyddoedd 7,8 a 9, a chyrsiau academaidd a galwedigaethol yng Nghyfnod Allweddol 4 a'r chweched dosbarth. **Mae arweinwyr yn sicrhau bod y cwricwlwm yn ymateb i anghenion, dymuniad a dyheadau disgyblion ar draws yr ystod oedran a gallu.** Atgyfnerthir hyn drwy **brosesau cynghori cynhwysfawr effeithiol** sy'n sicrhau bod **disgyblion o bob gallu yn dilyn cyrsiau priodol addas.**

Mae'r ysgol yn darparu cyngor ac arweiniad cadarn i ddisgyblion wrth iddynt ddewis eu pynciau TGAU a Safon Uwch. Mae'r disgyblion yn hapus â'r gefnogaeth a'r cyngor a ddarperir, sy'n cynnwys cyfweliadau un-i-un ag arweinwyr, cyfweliadau â'r swyddog gyrfaoedd a thrwy drafodaethau mewn nosweithiau opsiynau.

Yn ogystal â'r uchod, gweler ein hadroddiad llawn i ddarllen am gryfderau eraill yr ysgol a'r cameos diddorol/arloesol canlynol mae Estyn wedi nodi sy'n deilwng o'i rannu'n ehangach:

- *darpariaeth datblygu medrau digidol disgyblion*
- *gwersi lles*
- *gwella presenoldeb trwy gynllun '12 diwrnod Nadolig'*
- *Cwtsh y Cwm*

Gellir darllen yr adroddiad cyflawn ar wefan yr ysgol.